EISTEDDFOD CFFI CYMRU – 2011 – WALES YFC EISTEDDFOD

Llefaru 26 neu iau

Fy Mro

(Llannefydd)

Gwilym Morris

Rwy'n caru mro!
Ei charu â rhyw angerdd sydd
tu hwnt i'm gallu i'w egluro'n iawn.
Ni fathwyd geiriau ddadansodda'r dwfn
deimladau greddfol sydd yn rhan o'm bod.

Rwy'n caru mro!
Ei hamherffeithrwydd a'i gwendidau oll,
fel caraf ei chadernid a'i ffyddlondeb hi.
Ai am mai yma magwyd fi
y teimlaf hyn?
A roddwyd rhyw ledrithiol aerwy arnaf gynt
pan sugnais ym mhlentyndod faeth o fron
y glòs gymdeithas a'm cofleidiai'n dynn?
Nis gwn,
ond gwn mai yma mae nedwyddwch i yn llawn,
mai yma dof agosaf eto Ef.

Rwy'n caru mro!
Rwy'n rhan ohoni hi.
O'i phridd y crëwyd priddyn fy modolaeth frau;
ac ni ddymunwn ddim yn fwy na hyn,
sef cael, pan ddêl fy nhymor yma i ben
ddychwelyd nôl – i freichiau'r fam
a threulio tragwyddoldeb yno'n un â hi.